# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN, AR DDYDD MERCHER 2 HYDREF 2019 AM 10.30AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd B. Jones – Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau Cymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau), S. Harris (Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes a Swyddog Dros Dro Adran 151).

Hefyd yn bresennol:

A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), C. Edwards (Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd), R. Harris (Rheolwr Archwilio Mewnol), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), D. Lucas (Arweinydd Tîm, Cynllunio Strategol), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro) ac C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Fe wnaeth y Cynghorydd S. Morgan ddatgan buddiant ar ddechrau'r cyfarfod yn ymwneud ag eitem 6 – Cyfleoedd Cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop – Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt, Rhymni, a Thŷ Du, Nelson. Mae'r manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem briodol.

### 3. CABINET – 18 MEDI 2019

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2019 fel cofnod cywir.

**MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**4. COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A CHYLCH GORCHWYL AR GYFER PANEL ADOLYGU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL WEDI'U DIWEDDARU**

Roedd yr adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 11 Mehefin 2019, yn ceisio cymeradwyaeth i God Llywodraethu a Chylch Gorchwyl y Panel Adolygu, wedi'u diweddaru, sy'n goruchwylio'r adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu ac yn drafftio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nododd y Cabinet mai'r newidiadau mawr rhwng y ddau gyhoeddiad gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (‘CIPFA’)/Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (‘SOLACE’) oedd bod chwe egwyddor sylfaenol o ran llywodraethu da yn wreiddiol ac mae'r rhain bellach wedi troi'n saith, a hefyd cydnabyddir effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar strwythurau a phrosesau llywodraethu yn y dyfodol.

Nodwyd mai un o elfennau allweddol y strwythur llywodraethu, fel y'i hamlygir yn y Cod lleol, yw'r Panel Adolygu Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r Panel yn chwarae rhan ganolog yn yr asesiad llywodraethu blynyddol sy'n arwain at lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cyfeiriwyd at Adran 5 yn Atodiad 1 sy'n egluro bod y Cyngor wedi mabwysiadu system Datganiadau Sicrwydd Cyfadrannau sy'n cael eu llunio bob blwyddyn i gyd-fynd â gwaith llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwyr adolygu gweithrediad ystod eang o systemau a gweithdrefnau llywodraethu yn eu meysydd gwasanaeth a nodi a oes unrhyw faterion arwyddocaol o ran diffyg cydymffurfio. Dadansoddir Datganiadau Sicrwydd Cyfadrannau, ar ôl eu cwblhau, i gael gwybod a oes unrhyw feysydd cyffredin sy'n peri pryder ac, os felly, a yw'r rhain yn faterion llywodraethu arwyddocaol. Bydd unrhyw faterion arwyddocaol o ran diffyg cydymffurfio a ddaw i'r amlwg yn cael eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei hun.

Nid yw'r Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru wedi newid yn sylfaenol o'r fersiwn flaenorol, gan wneud dim ond rhywfaint o ddiweddaru teitlau swyddi a gwella'r geiriad.

Yn ogystal, yn dilyn y Pwyllgor Archwilio, gofynnwyd am Ddatganiadau o Ddiddordeb gan y Pwyllgor ar gyfer cynrychiolydd i eistedd ar Banel Adolygu Llywodraethu Corfforaethol, a chafwyd enwebiad ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Roedd y Prif Weithredwr yn dymuno nodi bod yr adolygiad yn amserol yn yr ystyr y bu nifer o newidiadau yn y sefydliad ers yr adolygiad diwethaf ac, o ganlyniad, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi ceisio sicrwydd bod arferion llywodraethu cadarn ar waith. Felly, byddai'r adolygiad yn darparu'r sicrwydd hwn lle bo angen.

Nododd Aelod Cabinet yr Egwyddorion (Atodiad 1 i'r adroddiad) sy'n rhedeg drwy'r ddogfen, ac ailadrodd pwysigrwydd cynnal yr egwyddorion.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog ac yn amodol ar argymhelliad ychwanegol (*ii*):

i) cymeradwyo'r dogfennau wedi'u diweddaru; y Cod Llywodraethu Corfforaethol a Chylch Gorchwyl Panel Adolygu Llywodraethu Corfforaethol;

*ii) cymeradwyo enwebu Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i eistedd ar y Panel.*

## 5. AWDURDODI'R SWYDDOGION O FEWN DIOGELWCH Y CYHOEDD – YMADAEL Â'R UE

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cabinet am newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n ofynnol o ganlyniad i'r Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd i sicrhau bod swyddogaethau Diogelwch y Cyhoedd yn cael eu trosglwyddo'n ddi-dor ar ôl y digwyddiad hwn a chael awdurdodiad ychwanegol i Swyddogion o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Nodwyd y bydd y Swyddog Monitro yn diwygio'r cyfansoddiad i adlewyrchu'r newid hwn.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod angen awdurdodiad ychwanegol ar Swyddogion yn yr Isadran Diogelwch y Cyhoedd o dan Ddeddfau Seneddol er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth a chyflawni eu dyletswyddau.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Trafodwyd yr adroddiad yn helaeth gan yr Aelodau, a gofynasant am ragor wybodaeth am weithgareddau'r Swyddogion yn barod ar gyfer ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Esboniodd y Swyddogion fod yr Isadran Diogelwch y Cyhoedd yn gweithredu o dan ddeddfwriaeth a safonau'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, ond, ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, bydd angen rhoi deddfwriaeth a sicrwydd ar waith er mwyn i fusnesau barhau i fasnachu ac allforio y tu allan i'r Deyrnas Unedig. O ganlyniad, byddai angen cyhoeddi Tystysgrifau Iechyd ar gynhyrchion bwyd, megis bara a chynhyrchion cig, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a rhagwelir y byddai cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio darparu cyllid ychwanegol ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru i gynorthwyo o ran y galw cynyddol, yn enwedig yn y diwydiant pysgod, fodd bynnag, mae trafodaethau wedi'u cynnal a rhagwelir y bydd y grant yn cael ei ganoli i ganiatáu i bob Awdurdod Lleol wneud cynnig am gyllid. Fodd bynnag, er y bydd pwysau ychwanegol ar y timau Safonau Bwyd a Safonau Masnach, sicrhawyd yr Aelodau eu bod yn fodlon derbyn yr her ac ateb y galw.

Gofynnodd y Cabinet am ragor o wybodaeth ynghylch y Tystysgrifau Iechyd ac a fyddent yn darparu'r gwarantau perthnasol ar gyfer Safonau'r Undeb Ewropeaidd a Marchnadoedd yr Undeb. Esboniodd y Swyddogion fod y mangreoedd presennol yn cael eu harchwilio o dan Safonau'r Undeb Ewropeaidd i alluogi allforio cynhyrchion bwyd; fodd bynnag, nid yw'n eglur a allai hyn newid o ardystio mangreoedd i ardystio bod cynhyrchion bwyd yn ddiogel i'w fwyta gan bobl.

Holodd un o'r Aelodau a ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol i'r newidiadau. Esboniodd y Swyddogion nad yw'r Awdurdod yn codi tâl am y gwasanaeth ar hyn o bryd, ond, gellir ystyried hyn pe bai'r galw'n cynyddu. Fodd bynnag, sicrhawyd yr Aelodau fod digon o staff i ymdrin â'r galw.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am yr adroddiad manwl a gwaith paratoi rhagorol y staff.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog:

i) awdurdodi swyddogion yn yr Isadran Diogelwch y Cyhoedd o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth a chyflawni eu dyletswyddau gan sicrhau trosglwyddiad di-dor yn dilyn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, pryd bynnag y bydd y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd;

ii) diwygio cylch gorchwyl a Chyfansoddiad y Cyngor drwy ychwanegu Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a dileu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Bydd Swyddog Monitro'r Cyngor yn gwneud y diwygiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor yn dilyn y Deyrnas Unedig yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, pryd bynnag y bydd hynny.

## 6. CYFLEOEDD CYLLID CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP 4.4 – YSTÂD DDIWYDIANNOL Y LAWNT, RHYMNI, A THŶ DU, NELSON

Cyhoeddodd y Cynghorydd S. Morgan fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod mewn perthynas â'r eitem hon gan ei fod yn byw 100 metr o'r safle yn Nhŷ Du, Nelson. Gan fod y buddiant yn bersonol yn unig, nid oedd yn ofynnol iddo adael y cyfarfod pan gyflwynwyd yr adroddiad a gallai gymryd rhan yn y ddadl a phleidleisio.

Roedd yr adroddiad yn ceisio cytundeb y Cabinet y dylid ceisio rhagor o gyllid allanol drwy'r Rhaglen Fuddsoddi Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, Blaenoriaeth 4 – Amcan Strategol 4 ac amlygu a chytuno ar y lefelau gofynnol o ran arian cyfatebol i ganiatáu gweithredu prosiectau Cam 1 yn llawn ar y ddau safle.

Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar gyfleoedd sy'n bodoli i wneud cais i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (‘WEFO’) am ragor o arian Ewropeaidd ar gyfer darparu unedau cyflogaeth fesul cam mewn dau safle yn y Fwrdeistref Sirol, sef Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt sy'n eiddo i'r Cyngor yn Rhymni, a thir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru yn Nhŷ Du, Nelson.

Nodwyd bod y Cyngor wedi ceisio am gyllid grant allanol o'r blaen o dan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Blaenoriaeth 4, Amcan Strategol 4 i gyflawni cam cyntaf yr unedau cyflogaeth a'r isadeiledd cysylltiedig ar y ddau safle. Er mwyn tynnu'r cyllid allanol hwn i lawr, mae'r Cyngor wedi cadarnhau o'r blaen, drwy gymeradwyaeth y Cabinet ar 28 Chwefror 2018, arian cyfatebol o hyd at £1.07 miliwn tuag at y ddau gynllun.

Esboniodd y Swyddogion fod cyfle wedi codi yn ddiweddar (Awst 2019) i ddenu rhagor o gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop tuag at y ddau gynllun i helpu gwireddu'r dyheadau cyflogaeth yn llawn yn rhanbarthau uchaf a chanol y Fwrdeistref Sirol. Felly, gofynnwyd i'r Cabinet gadarnhau arian cyfatebol ychwanegol o hyd at £402,234 i ddenu cyllid ychwanegol sydd werth hyd at £1.386 miliwn o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a thua £212,000 o Adran Economi a Seilwaith Llywodraeth Cymru. Byddai'r cyllid ychwanegol yn darparu rhagor o werth ychwanegol sylweddol i weithrediadau'r Lawnt a Thŷ Du, gan gynnig rhagor o isadeiledd a chyfleoedd cyflogaeth.

Yn ogystal, gofynnwyd i'r Cabinet nodi y byddai'r ddau ddatblygiad yn cynhyrchu incwm i'r Cyngor drwy osod eiddo yn y dyfodol. Drwy ddefnyddio'r cyllid ychwanegol hwn i gynyddu'r arwynebedd llawr datblygedig, bydd lefel yr incwm rhent posibl hefyd yn cynyddu.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y cynllun yn Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt a chodwyd pryderon bod achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y safle presennol. O ganlyniad, gofynnodd yr Aelod Cabinet a ymgynghorwyd â Heddlu Gwent a'r Tîm Diogelwch Cymunedol ynghylch y datblygiad ac a ellid sicrhau bod diogelwch ychwanegol ar gael. Esboniodd y Swyddogion yr ymgynghorwyd â Heddlu Gwent fel rhan o'r broses ymgynghori ac, ar ben hynny, mae teledu cylch cyfyng wedi'i gynnwys yn y dyluniad, ar yr amod y bydd cyllid yn caniatáu hynny.

Trafododd yr Aelodau y cyllid a gynigir, a gofyn am ragor o wybodaeth am yr ymatebion i'r cais a'r blaenoriaethau os na fydd cyllid ar gael. Esboniodd y Swyddogion nad yw ymateb ffurfiol wedi dod i law eto, ond nodwyd os na fydd yr holl gyllid allanol o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn cael ei wireddu, bydd prosiectau'n cael eu blaenoriaethu; os felly, bydd Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt yn cael blaenoriaeth gan ei fod ymhellach ymlaen yn ei rhaglen ddatblygu na safle Tŷ Du. Ar ben hynny, mae ei phrisiadau'n fwy cadarn/cywir gan eu bod yn seiliedig ar ddyfynbrisiau contractwyr adeiladu llwyddiannus yn hytrach na bod yn seiliedig ar gynlluniau costau cyn y cam tendro, fel yn achos Tŷ Du.

Cafwyd trafodaethau ynghylch yr enillion ar fuddsoddiad i'r Awdurdod. Esboniodd y Swyddogion y dylai Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt, pan fydd yn llawn, sicrhau enillion ar fuddsoddiad o fewn 30 o flynyddoedd a dylai safle Tŷ Du, er ei fod yn fenter ar y cyd â Llywodraeth Cymru, sicrhau enillion ar fuddsoddiad o fewn 14–20 o flynyddoedd; fodd bynnag, roedd y Swyddogion a'r Aelodau'n awyddus i nodi mai budd arwyddocaol i'r prosiectau yw'r hwb sylweddol i'r economi.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

i) cymeradwyo'r dull a gymerir i geisio rhagor o gyllid o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gyfer cynlluniau Ystâd Ddiwydiannol y Lawnt a safle Tŷ Du i ddatblygu defnydd cyflogaeth pellach a'r isadeiledd cysylltiedig;

ii) cytuno y bydd yr Awdurdod yn symud y cynlluniau ymlaen fel y nodir yn yr adroddiad os bydd grant ychwanegol o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gael;

iii) defnyddio'r gronfa Gyfalaf wrth gefn wedi'i chlustnodi ar gyfer arian cyfatebol sydd werth £402,234 i alluogi sicrhau tua £1.386 miliwn yn ychwanegol o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth newydd ar y ddau safle.

## 7. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR Y FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL DRAFFT

Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau i ystyried ymateb y Cyngor i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft.

Nodwyd bod Llywodraeth Cymru, ar 7 Awst 2019, wedi cyhoeddi'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft ar gyfer ymgynghori. Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw'r haen uchaf newydd o ran cynllun datblygu yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar faterion a heriau ar lefel genedlaethol ac yn darparu fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol sy'n cael eu llunio i ddarparu'r strategaethau mwy lleol.

Mae'r Swyddogion wedi amlygu nifer o bryderon, gan gynnwys: mae'r strategaeth yn anghyson ac nid yw'n darparu'r fframwaith polisi trosfwaol angenrheidiol; mae'n hepgor materion o bwys cenedlaethol, megis yr M4; cyfraniad cynhyrchu ynni gwynt ar y môr a môr-lynnoedd llanw; mae'r strategaeth ofodol yn ceisio canolbwyntio ar ganolfannau trefol a allai arwain at orlenwi trefol a lleihau ansawdd bywyd; y gofyniad i ddynodi Llain Werdd a allai beryglu gallu Caerdydd, Casnewydd, Cwmbrân a Chaerffili i fod yn ganolbwynt i dwf cenedlaethol a rhanbarthol; ac mae'n hepgor Ystrad Mynach o ganolbwynt Strategol Caerffili/Ystrad Mynach, fel y'i diffinnir gan Dasglu'r Cymoedd.

Esboniodd y Swyddogion fod yr adroddiad yn ddogfen ymgynghori a fyddai, fel arfer, yn cael ei hystyried gyda'r Aelod Cabinet perthnasol; fodd bynnag, oherwydd y goblygiadau pwysig a phosibl i'r Fwrdeistref Sirol, teimlwyd y byddai adroddiad Cabinet yn fwy priodol. Yn ogystal, nododd y Cabinet, os cytunir arno, y bydd sylwadau'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau ar gyfer ymatebion ar 1 Tachwedd 2019.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth.

Holodd y Prif Weithredwr a yw cydweithwyr mewn Awdurdodau Lleol eraill wedi amlygu pryderon tebyg o ran y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Esboniodd y Swyddogion, yn dilyn trafodaethau â chydweithwyr, fod themâu a phryderon tebyg yn dod i'r amlwg, ond er bod

buddiannau a materion lleol yn wahanol, rhagwelir y bydd sylwadau tebyg yn cael eu gwneud gan gydweithwyr mewn Awdurdodau cyfagos.

Cafwyd trafodaethau ynghylch y Strategaeth Ofodol ac eglurodd y Swyddogion fod pryderon wedi'u codi ynghylch y derminoleg. Er nad oes unrhyw broblemau o ran cyflwyno datblygiadau mewn aneddiadau, gallai'r derminoleg achosi problemau a thrwy hynny roi pwysau ar fannau agored.

Diolchodd Aelod Cabinet i'r Swyddog am gynnwys pryderon ynghylch Tai Fforddiadwy, sy'n fater arwyddocaol i'r Awdurdod, yn y ddogfen.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:

i) cymeradwyo'r sylwadau a nodir yn yr 'Ymateb i'r Ymgynghoriad ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft';

ii) anfon sylwadau ymlaen at Lywodraeth Cymru, fel sylwadau ffurfiol y Cyngor, erbyn y dyddiad cau ar 1 Tachwedd 2019.

**8. MATER EITHRIEDIG**

Ystyriodd yr Aelodau dystysgrif prawf budd i'r cyhoedd gan y Swyddog Priodol a daethant i'r casgliad, at ei gilydd, fod y budd i'r cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth, a

PHENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fod y cyhoedd yn cael ei wahardd o weddill y cyfarfod oherwydd y byddai'n debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig iddynt fel y nodwyd ym mharagraffau 14 ac 16 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**9. STRYD PENTREBANE, CAERFFILI – DEFNYDD POSIBL O BWERAU'R GORCHYMYN PRYNU GORFODOL**

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y defnydd posibl o bwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol i hwyluso gwaith ailddatblygu yn Stryd Pentrebane, Caerffili.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, gymeradwyo'r argymhellion ym mharagraff 3.1 (i), (ii), (iii) a (iv).

Terfynwyd y cyfarfod am 11.11am.

Cymeradwywyd a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 16 Hydref 2019.

______________________

CADEIRYDD